

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd Briff Ymchwil

14 Hydref 2019



Y Cynulliad ^a

BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Nigel.Barwsie@Cynulliad.Cymru**

Twitter: **@SeneddYmchwil**

Blog: **SeneddYmchwil.blog**

LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Brexit sy'n berthnasol i Cymru. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; yr UE; y DU; a'r Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 27 Tachwedd ac 16 Ionawr 2019, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd

Briff Ymchwil

14 Hydref 2019



Y Cynulliad

BREXIT

Cynnwys

Cyflwyniad 1

Datblygiadau yng Nghymru 2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2

Llywodraeth Cymru 3

Newyddion..... 4

Datblygiadau o'r UE 5

Y Cyngor Ewropeaidd 5

Y Comisiwn Ewropeaidd 5

Senedd Ewrop 5

Datblygiadau'r Deyrnas Unedig 6

Llywodraeth y DU 6

Tŷ'r Cyffredin..... 6

Pwyllgorau 7

Craffu ar Ewrop:..... 7

Materion Cartref:..... 8

Masnach Ryngwladol:..... 8

Cysylltiadau:..... 8

Gweithdrefn:..... 8

Cyfrifon Cyhoeddus:.....8

Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol:.....9

Tŷ'r Arglwyddi..... 9

Pwyllgorau 10

Pwyllgor Dethol yr UE:..... 10

Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE: 10

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE:..... 10

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE:..... 11

Craffu ar is-ddeddfwriaeth:..... 11

Newyddion..... 11

Yr Alban.....13

Senedd yr Alban13

Llywodraeth yr Alban13

Gogledd Iwerddon.....14

Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.....15

Adroddiadau a gyhoeddwyd.....16

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.....	16
Institute for Government.....	16
Y DU mewn Ewrop sy'n newid	16
Y sgwrs	16
LSE	16
Eraill	17

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru; yr Undeb Ewropeaidd; y Deyrnas Unedig; yr Alban ac Iwerddon. Y cyfnod a gwmpesir yw rhwng 24 Medi a 8 Hydref 2019, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle'r oedd gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

Datblygiadau yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn gwneud gwaith ar **Newidiadau i Ryddid i Symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru**, ar **Cytundebau Rhyngwladol** ac ar **Waith dilynol ar y parodrwydd ar gyfer Brexit**.

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

- 30 Medi: Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod o grŵp ffocws gyda gwladolion yr UE a sefydliadau partner i gael dealltwriaeth o'u profiad byw.
- 7 Hydref: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit. Mae'r **trawsgrifiad ar gael yma**.

Ar 7 Hydref nododd y Pwyllgor:

- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Cadeirydd ynghylch gwaith dilynol i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Paratodau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'** - 27 Medi 2019.

Ar 9 Gorffennaf lansiodd y Pwyllgor ei ymgynghoriad ar y **newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - y goblygiadau i Gymru**. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Medi, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion a gafodd. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **bedwerydd adroddiad ar Cytundebau Rhyngwladol: Y goblygiadau i Gymru** ym mis Medi 2019.

Ar 2 Hydref cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei adroddiad ar **Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit**.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae modd dod o hyd i'r rhain ar **wefan y Pwyllgor**. Ar

hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r **Newid yng nghyfansoddiad Cymru** gan gynnwys ystyried y goblygiadau i setliad datganoli Cymru yn sgil lefelau newydd o lywodraethiant yn y DU o ganlyniad i Brexit.

Y Cyfarfod Llawn

24 Medi: **Cwestiwn Brys: Dyfarniad y Goruchaf Lys**.

25 Medi: **Dadl: Y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**

1 Hydref: Gwnaethpwyd datganiadau gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru ar y paratodau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'. Gweler adran Llywodraeth Cymru isod.

2 Hydref : **Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)**

Cyhoeddir blogiau gwasanaeth Ymchwil y Senedd yn **Pigion**. Y blogiau diweddaraf ar Brexit yw:

- Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE Adroddiad Monitro Brexit**
- Dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch yr addoediad a'r hyn y mae'n ei olygu i Gymru**

Llywodraeth Cymru

25 Medi: **Parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd fydd yn sicrhau'r dyfodol mwyaf disglair i Gymru - Jeremy Miles** - Adroddiad: **Dyfodol mwy disglair i Gymru: Y rhesymau dros aros yn yr UE**.

1 Hydref: **Jeremy Miles: Mae'r ffordd wedi dod i ben i Brif Weinidog y DU a rhaid iddo ofyn am estyniad nawr**.

1 Hydref: **Datganiad Llafar: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE**.

1 Hydref: **Datganiad Llafar: Paratoi'r economi yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb**.

1 Hydref: **Datganiad Llafar: Paratoi'r economi wledig a'r sector pysgodfeydd ar gyfer Brexit heb gytundeb**.

1 Hydref: **Datganiad Llafar: Paratoi'r gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb.**

1 Hydref: **Datganiad Llafar: Paratoi ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb.**

3 Hydref: **Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C offerynnau statudol o dan y Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd..**

3 Hydref: **Datganiad ysgrifenedig: Paratoadau'r gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb.**

4 Hydref: **Cyllid newydd i helpu i sicrhau cysylltiadau Cymru yn Ewrop ar ôl Brexit.**

7 Hydref: **'Dewch inni greu economi er budd pawb'.**

Newyddion

26 Medi: **FUW yn bygwth achos cyfreithiol os yw ffiniau'n caniatáu mewforion di-dariff trwy'r 'drws cefn'** (Undeb Amaethwyr Cymru)

26 Medi: **Mae angen i iechyd a lles ffermwyr fod yn flaenllaw mewn ymateb Brexit - adroddiad newydd** - Adroddiad: **Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd** (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru)

30 Medi: **Cytundeb Brexit 'Anghofiedig' yw'r opsiwn gorau o hyd i gefn gwlad Cymru meddai FUW**

3 Hydref: **Cynnig newydd Brexit yn parhau i anwybyddu Cymru** yn ôl Undeb Amaethwyr Cymru.

3 Hydref: **Gweinidog Brexit Cymru yn clywed mai 'Ffermio yw'r ateb i newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng bwyd'** (Undeb Amaethwyr Cymru)

8 Hydref: **NFU Cymru yn ymateb i adolygiad tariff Llywodraeth y DU** (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru)

Datblygiadau o'r UE

Y Cyngor Ewropeaidd

2 Hydref : **Cefnogi pobl a allai gollu eu swyddi pe bai Brexit heb gytundeb: Y Cyngor yn cymeradwyo mesurau wrth gefn drafft.**

Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi **'Nodiadau parodrwydd ar gyfer Brexit'** ynghylch goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd - **yn amodol ar unrhyw drefniant pontio a allai gael ei gynnwys mewn cytundeb ymadael posibl.**

24 Medi: **Araith gan Michel Barnier yn y Zeitungskongress, Berlin.**

25-26 Medi: Steve Barclay a Michel Barnier yn gohebu â'i gilydd: **I Michel Barnier; i Steve Barclay.**

27 Medi: **Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn dilyn cyfarfod heddiw rhwng Michel Barnier, Prif Negydwr y Comisiwn Ewropeaidd, a Steve Barclay, Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd..**

2 Hydref: **Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn dilyn galwad ffôn y Llywydd Jean-Claude Juncker â Boris Johnson, Prif Weinidog y DU.**

3 Hydref: **Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn dilyn galwad ffôn yr Arlywydd Jean-Claude Juncker gyda Taoiseach Leo Varadkar.**

Senedd Ewrop

24 Medi: **Etholiadau Ewropeaidd 2019: Y nifer fwyaf erioed i bleidleisio yn cael ei sbarduno gan bobl ifanc.**

25 Medi: **Gwrandawriad Brexit Trawsbleidiol** wedi'i gynnal gan Renew Europe.

3 Hydref: **Brexit: nid yw cynigion diweddar y DU yn cynnig y mesurau diogelwch sydd eu hangen ar yr UE ac Iwerddon.**

8 Hydref: **Datganiad gan David Sassoli, Llywydd Senedd Ewrop yn dilyn ei gyfarfod gyda Boris Johnson, y Prif Weinidog.**

Datblygiadau'r Deyrnas Unedig

Llywodraeth y DU

24 Medi: **Araith y Prif Weinidog gerbron Cynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig.**

25 Medi: **Llythyr at Mr M Barnier gan Steve Barclay, yr Ysgrifennydd Gwladol. Ymateb gan M Barnier.**

Diweddariad 26 Medi: **Newidiadau i Dystysgrifau Amddiffyn Atodol (SPCs) a chyfraith patentau os bydd dim cytundeb â'r Undeb Ewropeaidd .**

30 Medi: **BYSGOTWYR Mae angen i chi ddilyn camau a phrosesau newydd i ddod â chynhyrchion pysgodfeydd i'r UE ar ôl Brexit.**

2 Hydref : **Cynigion y DU ar gyfer Protocol newydd ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon - nodyn esboniadol.**

3 Hydref: **Sylwadau yn Llysgenhadaeth yr Almaen gan Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn.**

8 Hydref: **Adroddiad ar y parodrwydd ar gyfer dim cytundeb.**

Tŷ'r Cyffredin

24 Medi: **Dyfarniad y Goruchaf Lys a goblygiadau hwn i'r Senedd..**

25 Medi: **Datganiad y Llefarydd.**

25 Medi: Cwestiwn Brys: **Cyngor Cyfreithiol: Addoedi'r Senedd.**

25 Medi: Datganiad ar **Barodrwydd ar gyfer Brexit: Operation Yellowhammer.**

25 Medi: **Diweddariad y Prif Weinidog.**

26 Medi: Cwestiwn Brys **Cydymffurfio â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 2) 2019.**

30 Medi: Cwestiwn Brys **Brexit Heb Gytundeb - Sefyllfaoedd o ran y Bunt.**

1 Hydref: Cwestiynau'r Trysorlys: **Effaith Economaidd Dim Cytundeb.**

1 Hydref: Cwestiwn Brys: **Ffin Iwerddon: Trefniadau Tollau.**

1 Hydref: 4 cynnig ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd - **Amaethyddiaeth; Amaethyddiaeth; Amaethyddiaeth a Phlaladdwyr.**

2 Hydref : **Cwestiynau i'r Prif Weinidog..**

2 Hydref : Dadl Neuadd San Steffan: **Symud Rhydd Gwladolion yr UE.**

3 Hydref: Cwestiynau ar y maes Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: **Ymadael â'r UE: Y diwydiannau creadigol.**

3 Hydref: Cwestiynau'r Twrnai Cyffredinol: **Deddf yr UE (Ymadael) (Rhif 2): Gweithredu; Addoedi: Dyfarniad y Goruchaf Lys; Brexit heb Gytundeb: Blaenoriaethau.**

3 Hydref: Datganiad y Prif Weinidog: **Negodiadau Brexit.**

7 Hydref: Cwestiwn brys ar y **Cytundeb Ymadael: Newidiadau arfaethedig.**

7 Hydref: Cwestiwn brys ar **Brexit heb gytundeb: Rhestr Tariffau.**

8 Hydref: Cwestiwn brys ar **Dadansoddiad o Effaith o ran Cyllid a Thollau EM: Tollau.**

8 Hydref: Datganiad ar **Paratodau ar gyfer Ymadael â'r UE.**

8 Hydref: **Addoedi Senedd y DU tan 14 Hydref.**

19 Hydref: **Brexit - Eisteddiad arbennig i Aelodau Seneddol benderfynu ar ddyfodol y DU** (BBC)

Pwyllgorau

Craffu ar Ewrop:

8 Hydref: **74ain Adroddiad: Dogfennau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 2 Hydref 2019.**

16 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar Craffu ar Ôl Brexit ar Gyfraith a Pholisi'r UE.

Materion Cartref:

10 Medi (cyhoeddwyd 25 Medi): **Tystiolaeth ysgrifenedig - nodyn ar sesiwn dystiolaeth anffurfiol gyda'r Gymdeithas Cludiant Nwyddau, â Colin Yeo, y Prif Arolygydd Ffiniau a Mewnfudo, â Luke Piper ac â Maria Lorente.**

25 Medi - 2 Hydref Pwyllgor yn cyhoeddi llythyr gan yr Ysgrifennydd Cartref ar gynlluniau ar gyfer mewnfudo. Llythyr **gan yr Ysgrifennydd Cartref. Llythyr dilynol at yr Ysgrifennydd Cartref.**

8 Hydref: **Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth bellach ar baratoadau ar gyfer Brexit.** Tystiolaeth ysgrifenedig gan **Dr Rachael Dickson a Dr Amanda Kramer.**

Masnach Ryngwladol:

8 Hydref: **Edrych yn fanwl ar effaith Brexit heb gytundeb ar allforion bwyd môr y DU.**

Cysylltiadau:

24 Medi: **Gofynnodd y Prif Weinidog i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyswllt - testun y llythyr.**

3 Hydref: **Cadeirydd yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ddyddiad cynharach ar gyfer ymddangosiad gerbron y Pwyllgor - testun y llythyr.**

Gweithdrefn:

2 Hydref : **Llythyr arall at y Cadeirydd, gan Arweinydd y Tŷ a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymadael â'r UE, ynghylch defnyddio'r weithdrefn frys ar gyfer Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE.**

8 Hydref: **Llythyr arall gan y Cadeirydd, at Arweinydd y Tŷ a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymadael â'r UE, ynghylch defnyddio'r weithdrefn frys ar gyfer Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE.**

Cyfrifon Cyhoeddus:

2 Hydref : Sesiwn dystiolaeth ar Ymadael â'r UE: cyflenwi'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. **Trawsgrifiad.**

Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol:

1 Hydref: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Rôl y Senedd yng Nghyfansoddiad y DU: Ymchwiliad ar Graffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a Chytundebau eraill: **Y Mudiad Cyfiawnder Masnach; Amy Dunne; Taleithiau Guernsey; Dr Ewan Smith; Dr Mario Mendez; Cymdeithas y Gyfraith yr Alban; Dr Asif Hameed; Jill Barrett; y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.**

8 Hydref: **Pwyllgor yn edrych yn fanwl ar Addoedi Senedd y DU a goblygiadau Cyfansoddiadol Dyfarniad y Goruchaf Lys.**

Tŷ'r Arglwyddi

24 Medi: **Yr Arglwydd Lefarydd yn cyhoeddi trefniadau i Dŷ'r Arglwyddi ailddechrau..**

25 Medi: **Datganiad yr Arglwydd Lefarydd.**

25 Medi: Cwestiwn Rhybudd Preifat: **Ymestyn Erthygl 50.**

25 Medi: Datganiad ar **Gyngor Cyfreithiol y Twrnai Cyffredinol..**

25 Medi: Datganiad ar **Barodrwydd ar gyfer Brexit ac Operation Yellowhammer..**

25 Medi: Datganiad: **Diweddariad i'r Senedd.**

26 Medi: Datganiad ar **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 2) 2018.**

30 Medi: Cwestiwn: **Brexit Hysbysebu Siopa Di-dreth.**

30 Medi: Cwestiynau ynghylch **Brexit: Mynediad i Systemau'r UE.**

30 Medi: Datganiad: **Brexit - Sefyllfaoedd o ran y Bunt.**

1 Hydref: Datganiad ar **Ffin Iwerddon: Gwiriadau a Threfniadau Tollau.**

2 Hydref : Cwestiynau ynghylch **Brexit: Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol.**

2 Hydref : Cynnig i nodi: **Brexit**

3 Hydref: Cwestiynau ynghylch **Brexit: Gwriad o Safonau'r UE.**

3 Hydref: Cwestiynau ynghylch **Brexit: Prosesau Seneddol.**

3 Hydref: Datganiad: **Cyd-drafodaethau Brexit**.

7 Hydref: Datganiad ar **Brexit: Y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol**.

7 Hydref: Datganiad ar **Brexit: Rhestrau Tariffau os bydd Dim Cytundeb**.

7 Hydref: Cynnig i gymeradwyo **Draft Heavy Commercial Vehicles in Kent (No. 1) Order 2019**.

7 Hydref: Cynnig i gymeradwyo **Heavy Commercial Vehicles in Kent (No. 1) Order 2019**.

8 Hydref: Datganiad: **Brexit: Paratodau**.

8 Hydref: **Diwedd Senedd 2017-19**.

Pwyllgorau

Pwyllgor Dethol yr UE:

3 Hydref: **Pwyllgor yn ymateb i'r Gweinidog Brexit ar gyfranogiad y DU yng nghyfarfodydd yr UE - testun y llythyr**.

4 Hydref: **Gofynnodd yr Ysgrifennydd Brexit am destun llawn y Llywodraeth ar ffin Iwerddon - testun y llythyr**.

8 Hydref: 16eg adroddiad - **Craffu ar gytundebau rhyngwladol; cytuniadau a ystyriwyd ar 7 Hydref 2019**.

8 Hydref: Sesiwn dystiolaeth: Craffu ar drafodaethau Brexit.

Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE:

3 Hydref: **Mae ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad ar sefyllfa bosibl ar ôl Brexit yn codi cwestiynau - testun y llythyr**.

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE:

17 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar atal yr arfer o droi'r cloc yn tymhorol.

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE:

22 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar Brexit: Hawliau dinasyddion: gwaith dilynol.

Craffu ar is-ddeddfwriaeth:

3 Hydref: **61ain Adroddiad y Sesiwn 2017-19**.

Newyddion

24 Medi: **R (ar gais Miller) (Apelydd) v Y Prif Weinidog (Ymatebydd); Cherry ac eraill (Ymatebwyr) v Eiriolwr Cyffredinol yr Alban (Apelydd) (Yr Alban)** (Y Goruchaf Lys)

24 Medi: **Y Gymdeithas Cludiant Nwyddau i ddarparu gweithdai parodrwydd ar gyfer Brexit am ddim**. (Y Gymdeithas Trafnidiaeth Nwyddau (FTA))

25 Medi: **Mae busnesau yn gwadu honiadau Gove am baratoi ar gyfer dim cytundeb** (BBC) - **Mae'n amhosibl lliniaru aflonyddwch dim cytundeb yn llwyr** (Consortiwm Manwerthu Prydain)

25 Medi: **Efallai bod Calais yn barod, ond a yw masnachwyr yn barod?** (Y Gymdeithas Cludiant Nwyddau ar y Ffyrdd (RHA))

26 Medi: **Mae cynhyrchiant ceir y DU yn codi ym mis Awst ond yn methu â gwneud iawn am golledion cau yn y gwanwyn yn sgîl Brexit**. (Y Gymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron)

29 Medi: **Mae'r TUC yn rhybuddio bod y Llywodraeth yn "cadw pobl yn y tywyllwch" ynghylch effaith dim cytundeb** - Adroddiad: **Canlyniadau 'dim cytundeb'** (Cyngres yr Undebau Llafur (TUC))

29 Medi: **Mae twf y sector preifat yn parhau i ostwng yng nghanol cythrwfl gwleidyddol - Dangosydd Twf** (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI))

30 Medi: **Byddai addewidion isafswm cyflog cymedrol yn cael eu suddo os na cheir cytundeb** (TUC)

1 Hydref: **Byddai archwiliadau tollau'n ddrwg i fusnes yng Ngogledd Iwerddon, yn ôl y Gymdeithas Cludiant Nwyddau ar y Ffyrdd** (RHA)

2 Hydref: **Mae angen datrysiad hyfyw ar derfyn Brexit, nid geiriau yn unig**

(Ffederasiwn Busnesau Bach)

2 Hydref : **Hwb paratoadau ar gyfer dim cytundeb wedi'i ddiweddarau** (CBI)

2 Hydref : **Ein hymateb i araith y Prif Weinidog yn y Gynhadledd** (CBI)

3 Hydref: **'Cynigion newydd yn sail ar gyfer trafodaethau pellach, nid yn ateb terfynol'** (CBI Gogledd Iwerddon)

3 Hydref: **Sylw gan FTA ar gyhoeddiad y llywodraeth ynghylch Brexit yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol** (FTA)

3 Hydref: **Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd - cynnig help i fusnesau baratoi ar gyfer Brexit** (RHA)

4 Hydref: **Bydd Boris Johnson yn gofyn i'r UE am oedi Brexit os na cheir cytundeb, mae dogfennau'r llys yn cadarnhau** (PoliticsHome)

7 Hydref: **Un o weinidogion Cymru yn rhybuddio am fygythiad Brexit dim cytundeb** - 'Catastrophic impact on rural communities' (Fishing News)

7 Hydref: **Barn Llys y Sesiwn yn neisebau Dale Vince OBE; Jolyon Maugham QC; a Joanna Cherry QC AS** (Llys y Sesiwn)

8 Hydref: **Make UK yn gwneud sylwadau ar y drefn tariffau yn y DU** - Mae diwydiant yn rhybuddio am effaith ddifrifol (Make UK)

8 Hydref: **Make UK yn gwneud sylw ar ddatganiad Gove** - Nid yw'r DU wedi paratoi ar gyfer newid niweidiol a mawr (Make UK)

8 Hydref: Cyllideb Werdd 2019 - Pennod 3: **Rhagolwg economaidd y DU mewn pedwar senario Brexit** (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol)

8 Hydref: **Bydd tariffau loriau 'dim cytundeb' yn brathu'n galed** (RHA)

8 Hydref: **Sylwadau BCC ar Adroddiad Parodrwydd o ran Dim Cytundeb, a'r drefn tariff dros dro** (Siambrau Masnach Prydain)

9 Hydref: **Barn Llys y Sesiwn o ran deisebau Dale Vince OBE; Jolyon Maugham QC; a Joanna Cherry QC AS** (Llys y Sesiwn)

Yr Alban

Senedd yr Alban

Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd **30 Medi**.

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban: **Nid yw'r Senedd wedi'i haddoedi - dyfarniad y Goruchaf Lys. Blog gwadd - Beth allai goblygiadau cynigion Prif Weinidog y DU o ran ymfudo fod i'r Alban?**

24 Medi: Datganiad: **Dyfarniad y Goruchaf Lys (Ymateb)**.

24 Medi: Dadl ar **Fframweithiau Cyffredin**.

1 Hydref: Pwyllgor yr Economi, Ynni a Gwaith Teg yr Alban: Sesiwn dystiolaeth ar **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Dim Cytundeb)**.

1 Hydref: Pwyllgor Cyfiawnder. Sesiwn dystiolaeth ar **Gynllunio Wrth Gefn (Ymadael â'r UE)** gyda Heddlu'r Alban.

8 Hydref: Datganiad ar **Baratoadau o ran Dim Cytundeb**.

Llywodraeth yr Alban

25 Medi: **Cronfeydd Brexit ar gyfer pobl fydd yn ei chael hi'n anodd i fforddio prynu bwyd**.

30 Medi: **Effaith Brexit ar y sector cig coch**.

1 Hydref: **Effaith Brexit ar y diwydiant gemau cyfrifiadurol**.

2 Hydref : **Mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â risgiau tlodi yn sgîl 'dim cytundeb' Brexit**.

4 Hydref: **Amddiffyn yr amgylchedd ar ôl Brexit** - Ymgynghoriad yn cefnogi cynigion Llywodraeth yr Alban.

6 Hydref: **Hawl i aros i ddinasyddion yr UE** - Anogir y Swyddfa Gartref i gael gwared ar y rheol pum mlynedd ar gyfer statws sefydlog.

8 Hydref: **Cyhoeddi paratoadau o ran Brexit 'Heb gytundeb' - Trosolwg Llywodraeth yr Alban o ran Paratoadau 'Dim Cytundeb'**.

Gogledd Iwerddon

Y Cynulliad yn cyhoeddi **newyddlen 'Brexit Brief' a gwybodaeth am Brexit.**

Mae gan wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon **Hwb Brexit** sy'n cynnwys gwybodaeth a lincs i adnoddau yn ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon. Ar 4 Hydref cyhoeddwyd **Brexit and Northern Ireland: Reading List #27.**

19 Medi: **Prosiectau Cronfa Gymdeithasol a Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi trawsnewid bywydau miloedd ledled Gogledd Iwerddon..**

3 Hydref: Mae'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) wedi cyhoeddi ei **chynllun i reoli anghenion Ardystiad Iechyd Allforio y sector bwyd-amaeth os yw'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.**

4 Hydref: **'Brexit and YOU' wedi'i ddsbarthu i gartrefi yng Ngogledd Iwerddon.**

Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

17 Medi: Cwestiynau yn y Dáil: **Cysylltiadau Eingl-Wyddelig, Materion Brexit.**

18 Medi: Cwestiynau yn y Dáil: **Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.**

25 Medi: Pwyllgor Arbennig y Seanad ar Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd - **Goblygiadau Ymadawiad y DU â'r UE i Iwerddon o ran Materion Trafnidiaeth.**

25 Medi: Dadl y Cydbwyllgor ar Iechyd - **Y wybodaeth ddiweddaraf am y Paratodau ar gyfer Brexit: Trafodaeth**

26 Medi: Cwestiynau y Dáil - **Paratodau ar gyfer Brexit.**

2 Hydref : Cwestiwn Dáil - **Trwyddedau gyrwyr** - (trwyddedau Iwerddon a thrwyddedau'r DU ar ôl Brexit).

27 Medi: **Y Tánaiste Simon Coveney yn cwrdd â Michel Barnier ym Mrwsel.**

2 Hydref : **Datganiad gan Taoiseach yn dilyn galwad gyda Phrif Weinidog y DU.**

3 Hydref: **Taoiseach yn siarad â'r Llywydd Juncker a'r Llywydd Tusk.**

8 Hydref: **Y Llywodraeth yn darparu mwy na €1 biliwn yng Nghyllideb 2020 i ymateb i Brexit heb Gytundeb.**

Adroddiadau a gyhoeddwyd

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Beth fyddai ystyr Brexit heb gytundeb o ran cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar amddiffyn?

Brexit a Theithio o ran Anifeiliaid Anwes

Brexit ac Amddiffyn y DU: Esboniwr

Brexit a masnach mewn gwasanaethau

Pleidleiswyr yr UE yng Nghymru a Lloegr: Hawliau, rhanbarthau a chofrestrau

Institute for Government

Y pedwar diffyg yng nghynigion Boris Johnson ar gyfer cytundeb Brexit wedi'i ailysgrifennu

Y DU mewn Ewrop sy'n newid

Mwyafrif seneddol heb bolisi a pholisi'r llywodraeth heb fwyafrif

Rhaid i Boris Johnson fynd ar drywydd pleidlais Plaid Brexit anoddach i'w hennill

Paratoi'r economi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

Persbectif tiriogaethol ar gynigion y DU i ddisodli'r backstop

A yw pleidleiswyr wedi colli amynedd â'r broses Brexit?

Y sgwrs

Cynllun Brexit Boris Johnson: yr hyn a ddatgelodd ei araith yng Nghynhadledd ei blaid

LSE

Siarad â Phobl Lliw Prydain yn yr UE27

Mae barnwyr y Goruchaf Lys yn rhoi olew ar y peiriant democrataidd, nid yn dweud wrtho beth i'w gynhyrchu

Sut y gwnaeth Brexit adfywio mudiad annibyniaeth Cymru

Mwy yn gyffredin: profiad emosiynol Brexit o safbwynt cenedlaethau amrywiol

'A ydyn nhw hyd yn oed yn ymwybodol y gallwn eu gweld?' Sylwadau Prydeinwyr o'r dosbarth gweithiol ar wleidyddiaeth o ran Brexit

Knowing Me, Not Knowing EU: sut mae camddeall yr UE yn gyfystyr â chamddeall y DU (ac yn ei gwneud hi'n anoddach ymadael)

Er gwaethaf 'Prydain Fyd-eang', bydd Prydain yn dilyn y model masnach Ewropeaidd am yr ychydig flynyddoedd nesaf

From burdens to assets, and back again: shifting UK press portrayals of EU migrants

Eglurhad ar ddewis amgen Boris Johnson i'r backstop

Eraill

Brexit: make it or break it? [What Think Tanks are thinking] (Blog Gwasanaeth Ymchwil y Senedd Ewropeaidd)

Brexit a Chytundeb Belfast (Cytundeb Dydd Gwener y Groglith): Dod o hyd i ffordd drwy'r cyfyngder 'os metha popeth arall' / backstop (Open Europe)

Manageable but Material: Canlyniadau Dim Cytundeb, a sut y dylai'r Llywodraeth ymateb (Open Europe)

Aileni gwleidyddiaeth pleidiau ym Mhrydain? ((Blogiau Brexit Caerdydd)

